SGWAD SAFIO DYLAN
DYLAN'S SAVING SQUAD

# Dysgu fel teulu

9-11 Oed

Mae'n rhaid i oedolion reoli arian er mwyn talu am y pethau y mae arnyn nhw eu hangen a'u heisiau. Rhyw ddiwrnod bydd yn rhaid i chithau ennill a rheoli eich arian eich hun. Dyna pam y mae'n bwysig iawn dysgu sut i wneud hynny pan eich bod yn ifanc.

Mae pob math o ffyrdd hwyliog i chi ddysgu gartref. Dyma rai gemau a gweithgareddau gwych y gallwch eu gwneud. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael eich rhiant neu warcheidwad i gymryd rhan!**

## Poster eisiau ac angen

Ydych chi erioed wedi ystyried y gwahaniaeth rhwng y pethau yr ydych chi eu heisiau a'r pethau yr ydych chi eu hangen? Mae hwn yn rhywbeth gwirioneddol bwysig i'w ddysgu. Tynnwch linell i lawr canol eich papur ac ysgrifennwch 'EISIAU' ar un ochr ac 'ANGEN' ar yr ochr arall. Llenwch y ddwy golofn gyda lluniau lliwgar megis bwyd yr ydych chi ei angen a'r teganau yr ydych chi eisiau eu cael.

## Cyflwyniad gyrfaoedd

Gall fod yn gyffrous iawn meddwl am y math o swydd fydd gennych chi pan fyddwch chi'n hŷn. Beth am archwilio rhai o'r swyddi sydd o ddiddordeb i chi? Dechreuwch gyda rhestr o'r pethau yr ydych chi'n eu gwneud yn dda fel mathemateg neu gelf. Gyda chymorth rhiant neu warcheidwad edrychwch ar y gwahanol swyddi y mae pobl â'r sgiliau hyn yn eu gwneud. Mae'n anodd gwybod beth yr ydych chi'n ei wneud yn dda pan eich bod yn ifanc. Cofiwch fod gennych lawer o dalentau nad ydych yn gwybod amdanyn nhw eto. Dysgwch am yr holl swyddi. Pa sgiliau fyddai eu hangen arnoch? Ble byddech chi'n gweithio? Am sawl awr neu ddiwrnod y byddech chi'n gweithio? Pa mor anodd yw hi i gael un o'r swyddi hynny? Efallai y byddwch eisiau chwilio am y swyddi sy'n talu'r arian gorau, ond mae'n bwysig cofio dewis rhywbeth sydd o ddiddordeb i chi. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi neilltuo blynyddoedd lawer ar gyfer hyfforddiant, a byddwch angen bod yn angerddol i ymrwymo i'r hyfforddiant hwnnw. Gallwch ddefnyddio'r cyfrifiadur i greu cyflwyniad neu gallwch greu un gyda darnau o bapur ar gyfer pob sleid. Cyflwynwch eich canfyddiadau i'ch teulu a'ch athro.

## Dylunio logo marchnata

Mae busnesau yn creu logo i greu delwedd i'w hunain y gall eu cwsmeriaid ei adnabod. Rhyw ddiwrnod efallai y byddwch chi'n ystyried dechrau eich busnes eich hun ac mae llawer o gyfleoedd i roi cynnig ar fusnes bach tra eich bod yn yr ysgol. Meddyliwch am syniad busnes a dyluniwch logo ar gyfer eich cwmni. Meddyliwch am ba liwiau a delweddau sy'n creu'r naws cywir ar gyfer eich busnes. Ar ôl i chi greu eich logo, gofynnwch i'ch teulu a'ch ffrindiau beth sy'n dod i'r meddwl wrth edrych ar eich logo. Gallech greu holiadur a defnyddio'r ymatebion i'ch helpu i wella eich dyluniad.





## Busnes bach - arwerthiant cist car

Gyda rhywfaint o gymorth gan riant neu warcheidwad, gallech gael stondin mewn arwerthiant cist car. Meddyliwch am beth y gallech ei werthu. Gallech werthu hen deganau a dillad nad oes eu hangen arnoch mwyach. Ystyriwch faint fyddai pobl yn ei dalu am yr eitemau. Crëwch dagiau prisiau ac arwyddion i wneud i'ch stondin edrych yn ddiddorol ac yn ddeniadol. Cadwch gofnod o bopeth yr ydych yn ei werthu er mwyn cyfrifo cyfanswm eich enillion.

Os na allwch fynd i arwerthiant cist car, efallai y gallech chi ystyried gwneud anrhegion i'w gwerthu mewn ffair ysgol. Mae llawer o syniadau da ar y rhyngrwyd, ond dylech gael rhiant neu warcheidwad i helpu! Ar adeg y Nadolig, gallech wneud addurniadau neu gardiau Nadolig gyda'ch dyluniadau cŵl eich hun arnynt.

Bydd angen i chi wneud cynllun ar gyfer eich busnes bach. Meddyliwch am roi cynnig ar ateb y cwestiynau hyn. Erbyn pryd y bydd angen i chi gael popeth yn barod? Sut y byddwch chi'n sicrhau bod popeth yn cael ei wneud mewn pryd? Pa wybodaeth fydd eich cwsmeriaid ei hangen? Beth fyddwch chi'n galw eich busnes bach? Pa brisiau fyddwch chi'n eu codi? A fydd yn rhaid i chi wario unrhyw arian yn gyntaf? Sut y byddwch chi'n ei ad-dalu? Beth fyddwch chi'n ei wneud gydag unrhyw eitemau nad ydych chi'n eu gwerthu? Sut y byddwch yn rhedeg eich busnes yn ddiogel? A oes unrhyw beryglon y mae angen i chi eu hosgoi? Trafodwch eich cynllun gyda'ch rhiant neu warcheidwad er mwyn cael eu cymorth a'u cyngor.

## Dadl dros swper

Trafodaeth ar bwnc yw dadl, sy'n archwilio gwahanol syniadau a safbwyntiau. Mae eistedd gyda'ch gilydd i gael swper yn amser gwych i sgwrsio gyda'ch teulu. Ceisiwch drafod un o'r pynciau hyn neu meddyliwch am un eich hunan:

- Dymuniadau ac anghenion gwahanol blant ledled y byd.
- A yw arian yn golygu hapusrwydd?
- A ddylem ni ddewis swyddi yn seiliedig ar faint o arian y gallwn ni ei ennill?
- A ddylem ni roi arian at elusen?
- A ddylem ni brynu pethau drud a fydd yn para am amser hir, neu lawer o bethau rhad yn aml?

## Siart wobrau

Wrth i chi fynd yn hŷn a dechrau ennill eich arian eich hun, bydd angen i chi ddysgu sut i fod yn gyfrifol. Gall hyn fod yn haws i bobl a oedd â chyfrifoldebau pan oedden nhw'n blant. Cytunwch gyda'ch teulu ar rai tasgau y gallech eu gwneud i helpu o amgylch y tŷ a nifer y pwyntiau y gallech eu hennill am gwblhau tasg. Cytunwch ar werth y pwyntiau trwy osod targedau gyda gwobrau. Er enghraifft, gallai 50 o bwyntiau fod yn ddiwrnod ar y traeth, a gallai 100 o bwyntiau fod yn gêm newydd. Cynilwch eich pwyntiau a phenderfynwch pryd i gyfnewid y pwyntiau am wobr.



Cyflwynwyd gan:
Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu
Lle mae cartref yn bwysig
www.sgwadsafiodylan.co.uk

## Arwerthiant wyau

Un ffordd y gellir prynu nwyddau yw drwy arwerthiant. Dyma pryd y mae grŵp o gwsmeriaid yn cynnig pris am eitem a'r pris uchaf yn ennill. Gelwir y rhain yn gynigion. Weithiau, gallwch gael bargen, ond weithiau mae'r cynigion yn fwy na gwerth yr eitem.

Rhowch gynnig ar y gêm hwyliog hon i ddysgu am arwerthiannau. Casglwch focs o sbwriel fel bocsys cardbord, hen bapur lapio, darnau o linyn a bagiau plastig. Bydd yr eitemau hyn yn cael eu defnyddio i ddiogelu wyau. Bydd un person yn arwerthwr sy'n rheoli'r cynigion ac yn gwobrwyo'r enillydd. Mae pob unigolyn yn cael £100 dychmygol i'w wario yn yr arwerthiant ac i brynu eitemau i amddiffyn ei wy. Ar ôl i'r arwerthiant ddod i ben, defnyddiwch eich eitemau i lapio eich wy yn ofalus. Yna mae'r arwerthwr yn mynd â'r wyau i gyd allan ac yn eu taflu'n uchel i'r awyr. Pwy bynnag a wariodd y swm lleiaf o arian ac sydd ag wy heb ei dorri yw'r enillydd.

## Cyllid y teulu

Gall fod yn dipyn o syndod dysgu am holl gostau rhedeg tŷ ar gyfer teulu. Meddyliwch am swydd a chanfyddwch faint o arian y byddech chi'n ei ennill yn y swydd honno. Eisteddwch gyda rhiant neu warcheidwad a chyfrifo'r holl gostau y mae'n rhaid eu talu megis trethi, rhent, trethi dŵr, trydan, nwy, bwyd a'r dreth gyngor. Gall eich rhieni neu warcheidwaid ddysgu popeth i chi am y biliau a'r hyn y maen nhw'n gofyn tâl amdano. Dysgwch am drethi a sut y maen nhw'n cynnal ein hysgolion, ysbytai, ffyrdd a pharciau. Gyda'r arian sy'n weddill ar ôl biliau, ystyriwch ar beth y byddech yn ei wario. Efallai gwyliau, gemau cyfrifiadurol, rhoddion i elusen, dillad? Gallwch greu dyfodol dychmygol a thynnu lluniau ohonoch yn y gwaith ac o'ch teulu gartref. Gallech greu dyluniadau ar gyfer eich tŷ yn y dyfodol. Dewch â phopeth yr ydych chi wedi ei ddysgu a'ch holl syniadau ynghyd mewn llyfryn neu gyflwyniad i'w ddangos i'ch ffrindiau a'ch athrawon yn yr ysgol.

**Diogelwch yn gyntaf! Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth riant neu warcheidwad am y gemau a'r gweithgareddau yr ydych chi'n eu gwneud fel y gallan nhw sicrhau eich bod chi'n chwarae'n ddiogel.**